*These notes refer to the Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019 (c.1)*

# DEDDF CYLLIDO GOFAL PLANT (CYMRU) 2019

## EXPLANATORY NOTES

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr 2018 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 30 Ionawr 2018.

2. Fe'u lluniwyd gan Gr#p Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf, ac os ymddengys nad oes angen rhoi unrhyw esboniad neu sylw ar adran unigol, nis rhoddir.

### TROSOLWG O'R DDEDDF

4. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyllido gofal plant ar gyfer plant rhieni sy'n gweithio, cyhyd ag y bo'r plant a'r rhieni yn bodloni meini prawf cymhwystra penodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn gwneud trefniadau ar gyfer sefydlu system ymgeisio a gwirio cymhwystra genedlaethol i'r cynllun cyllido gofal plant a bydd yn caniatáu i ddarpariaeth gael ei gwneud i alluogi rhannu data rhwng personau penodedig (er enghraifft, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac Adrannau eraill o Lywodraeth y DU) er mwyn hwyluso hyn.

### CEFNDIR POLISI

5. Mae'r Ddeddf yn adlewyrchu ymrwymiad ym maniffesto Llafur Cymru, ***Gyda'n Gilydd dros Gymru (2016),*** i ddarparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a gyllidir gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio a chanddynt blant cymwys sy'n dair ac yn bedair oed yng Nghymru, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

### RHYCHWANT TIRIOGAETHOL A CHYMHWYSO

6. Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn rhychwantu Cymru a Lloegr (fel un awdurdodaeth gyfreithiol).

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

#### *Adran 1 – Cyllido gofal plant ar gyfer plant rhieni sy'n gweithio*

7. Mae adran 1(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid gofal plant ar gyfer plant cymhwysol rhieni sy'n gweithio. Mae adran 1(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau faint o ofal plant sydd i'w sicrhau yn unol â'r cyllid a ddarperir o dan adran 1(1). Mae adran 1(3) yn pennu gofynion sylfaenol penodol y mae rhaid i blentyn eu bodloni er mwyn cael gofal plant a gyllidir (gan gynnwys y gofynion bod y plentyn o dan yr oedran ysgol gorfodol, yn blentyn rhieni sy'n gweithio, ac yn blentyn sydd yng Nghymru). Mae hefyd yn caniatáu

i Weindogion Cymru osod gofynion eraill mewn rheoliadau. Caiff y gofynion hyn (is-adran (5)) ymwneud â rhiant i'r plentyn.

8. Bydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon yn ymhelaethu ar y gofynion hyn, er enghraifft drwy bennu pryd y mae person i'w drin fel pe bai'n gwneud gwaith am dâl, pryd y mae plentyn i'w drin fel pe bai yng Nghymru, a phryd y mae person i'w drin fel pe bai'n bartner i berson arall. Er enghraifft, caiff y rheoliadau bennu y bydd person sy'n absennol dros dro o'r gweithle o dan amgylchiadau penodol, megis cymryd absenoldeb rhiant, yn cael ei ystyried fel pe bai yn y gwaith at ddibenion penderfynu ar gymhwystra i gael cyllid.

## *Adran 2 – P#er i wneud darpariaeth ynghylch gweinyddu etc. cyllid*

9. Mae'r adran hon yn rhoi'r p#er i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi trefniadau ar gyfer gweinyddu a gweithredu'r cynllun cyllido a sefydlir yn rhinwedd adran 1. Caiff y rheoliadau hyn gynnwys, er enghraifft, fanylion am sut y gall rhiant plentyn cymwys, neu bartner i riant plentyn cymwys, wneud cais am y cyllid, a sut yr ymgymerir â gwiriadau cymhwystra. Mae adrannau 3 i 7 o'r Ddeddf yn cynnwys rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r math o ddarpariaeth y caniateir ei gwneud mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran hon.

## *Adran 3 – Gofyniad i rieni etc. ddarparu gwybodaeth*

10. Effaith yr adran hon yw y gall fod yn ofynnol i unrhyw un sy'n hawlio cyllid ar hyn o bryd, neu sy'n ei hawlio am y tro cyntaf, ac felly sy'n gorfod gwneud datganiad o dan adran 1 neu sy'n gwneud datganiad o dan yr adran honno, ddarparu gwybodaeth a dogfennau a bennir yn y rheoliadau, naill ai i Weinidogion Cymru neu i rywun (er enghraifft, gweinyddydd y cynllun) sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru.

11. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth i berson sy'n darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol fod yn agored i gosb ariannol. Ystyr "anwir neu gamarweiniol" yn y cyd-destun hwn yw anwir neu gamarweiniol mewn manylyn perthnasol. Mae hyn yn golygu, yn ymarferol, na fyddai person yn agored i gosb ond os oedd yr wybodaeth anwir neu gamarweiniol a ddarparwyd wedi cael effaith ar ba un a fyddai person yn gymwys i gael y cynnig ai peidio, megis manylion am ei enillion, oedran y plentyn etc. Mae adran 3(5) yn ymdrin â'r cydberthynas rhwng cosb o dan yr adran hon, ac achos am drosedd, er enghraifft cael mantais ariannol drwy ddichell. Mae'n darparu na chaiff person sydd wedi ei euogfarnu o drosedd fod yn agored hefyd i gosb mewn cysylltiad â'r un amgylchiadau.

12. Mae adran 3(6) yn darparu mai uchafswm unrhyw gosb ariannol y caniateir iddi gael ei chodi mewn rheoliadau a wneir o dan adran 2 yw £3,000. Mae gan Weinidogion Cymru b#er i ddiwygio'r uchafswm hwn mewn rheoliadau (gweler adran 11 o'r Ddeddf).

## *Adran 4 – Darparu gwybodaeth gan drydydd partïon*

13. Mae adran 4 o'r Ddeddf yn pennu y caiff y rheoliadau (y caniateir iddynt gael eu gwneud o dan adran 2) wneud darpariaeth i bersonau penodol a bennir yn yr adran (gweler isod) ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru neu i berson sy'n darparu gwasanaethau iddynt. Rhaid i'r wybodaeth o dan sylw gael ei phennu neu ei disgrifio yn y rheoliadau, ac ni chaniateir ymdrin â'r wybodaeth yn y ffordd hon ond os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ar gyfer penderfynu ar gymhwystra i gael cyllid o dan adran 1 o'r Ddeddf.

14. Caiff y rheoliadau ganiatáu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, i adran o'r llywodraeth neu i un o Weinidogion y Goron (neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i unrhyw un neu ragor ohonynt) ddarparu i Weinidogion Cymru (neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru) unrhyw wybodaeth o'r math hwn. Serch hynny, bydd hyn yn ddarostyngedig i'r "Gweinidog priodol" gydsynio i hyn: mae ystyr "Gweinidog priodol" wedi ei nodi yn adran 4(6).

15. Caiff y rheoliadau naill ai ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol, neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i awdurdod lleol, ddarparu gwybodaeth o'r math hwn i Weinidogion Cymru neu i berson sy'n darparu gwasanaethau iddynt. (Mewn geiriau eraill, yn y cyd-destun hwn, ond nid yn y cyd-destun hwnnw a ddisgrifir ym mharagraff 15, caniateir gosod gofyniad i ddarparu gwybodaeth).

### *Adran 5 – Datgelu ymlaen wybodaeth sydd wedi ei datgelu yn rhinwedd adran 3 neu 4*

16. Mae adran 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch datgelu ymlaen wybodaeth sydd wedi cael ei datgelu yn rhinwedd adran 3 neu 4. Mae adran 5(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog priodol roi cydsyniad i unrhyw reoliadau sy'n cynnwys darpariaeth ynghylch datgelu ymlaen wybodaeth a ddarperir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, un o Weinidogion y Goron, adran o'r llywodraeth neu berson sy'n darparu gwasanaethau i unrhyw un neu ragor o'r personau hyn. Mae i "Gweinidog priodol" yr un ystyr yn yr adran hon ag yn adran 4, sef y Trysorlys mewn perthynas â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer adran o'r llywodraeth neu un o Weinidogion y Goron.

17. Mae adran 5(4) yn galluogi i unrhyw reoliadau sy'n ymwneud â datgelu ymlaen wybodaeth wneud darpariaeth ar gyfer troseddau mewn cysylltiad â datgelu ymlaen heb awdurdod wybodaeth sydd wedi cael ei rhannu at ddibenion gwneud penderfyniad am gymhwystra person i gael gofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth.

18. Yn unol ag adran 5(5), ni all uchafswm y gosb y caniateir iddi fod yn gysylltiedig ag unrhyw drosedd sydd wedi ei chreu yn rhinwedd yr adran hon fod yn hwy na dedfryd o garchar am 2 flynedd (pa un a yw'n dod gyda dirwy ai peidio).

### *Adran 6 – Adolygu penderfyniadau ac apelau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf*

19. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn pennu y caiff rheoliadau y caniateir iddynt gael eu gwneud o dan adran 2 wneud darpariaeth ynghylch yr hyn sy'n digwydd pan fo person am herio penderfyniad am ei gymhwystra i gael cyllid. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch adolygiadau o benderfyniadau ac ar gyfer apelau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Os yw rheoliadau yn cael eu gwneud o dan adran 2 o'r Ddeddf sy'n gwneud darpariaeth ynghylch gosod cosbau ariannol (yn rhinwedd adran 3) yna mae adran 6(2) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt hefyd wneud darpariaeth er mwyn galluogi person i herio gosod y gosb ariannol neu ei swm.

### *Adran 7 – P#er i roi swyddogaethau i Awdurdodau Lleol*

20. Mae adran 7 yn rhoi'r p#er i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth yn y rheoliadau y caniateir iddynt gael eu gwneud o dan adran 2 i roi pwerau neu i osod rhwymedigaethau ar Awdurdodau Lleol mewn cysylltiad â chyllid o dan adran 1. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru i gefnogi gweinyddu a gweithredu'r cynllun cyllido.

### *Adran 8 – Dyletswydd i lunio a chyhoeddi adroddiad ar effaith y Ddeddf hon*

21. Mae adran 8 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad ar effaith y Ddeddf ac ar weithredu unrhyw drefniadau a wneir at ddibenion adran 1 o'r Ddeddf. Rhaid i'r adroddiad gael ei lunio a'i gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw adran 1 i rym.

### *Adran 9 – Diwygiad canlyniadol i Ddeddf y Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005*

22. Mae adran 9 o'r Ddeddf yn cynnwys diwygiad i adran 18 o Ddeddf y Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 ("Deddf 2005") sy'n gwneud darpariaeth ynghylch dyletswydd

cyfrinachedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae adran 18 o Ddeddf 2005 yn nodi'r cod cyfrinachedd ar gyfer Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'i swyddogion mewn perthynas â'r wybodaeth a gedwir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac yn pennu'r amgylchiadau pan all datgeliadau gael eu gwneud.

23. Bydd y diwygiad i Ddeddf 2005 yn mewnosod paragraff newydd yn adran 18(2) o'r Ddeddf honno a fydd yn galluogi Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i ddatgelu gwybodaeth sy'n ofynnol at ddibenion unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon i Weinidogion Cymru (neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru).

24. Mae Deddf 2005 yn ffurfio rhan o'r gyfraith yn nhair awdurdodaeth gyfreithiol y Deyrnas Unedig: sef Cymru a Lloegr; yr Alban; a Gogledd Iwerddon (gweler adran 56 o Ddeddf 2005 am y ddarpariaeth sy'n pennu rhychwant y Ddeddf ledled y DU).

25. Mae adran 108A(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n nodi'r rheolau sy'n llywodraethu terfynau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, yn cyfyngu ar rychwant Deddfau'r Cynulliad, gan gynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth arall a wneir gan y Ddeddfau hynny, i awdurdodaeth Cymru a Lloegr.

26. Mae hyn yn golygu y bydd gan y diwygiad i adran 18 o Ddeddf 2005 rychwant mwy cyfyngedig na'r darpariaethau hynny yn Neddf 2005 sy'n rhychwantu'r DU gyfan. Felly bydd adran 18 o Ddeddf 2005, i'r graddau y mae'n rhychwantu awdurdodaethau'r Alban a Gogledd Iwerddon, yn bodoli heb y diwygiad a gynhwysir yn adran 9 o'r Ddeddf. Ond bydd y diwygiad yn cael effaith at ddibenion awdurdodaeth Cymru a Lloegr.

### *Adran 11 – P#er i newid swm y gosb ariannol ar gyfer darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol*

27. Mae'r adran hon yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n amrywio uchafswm y gosb o £3,000 a bennir yn adran 3(6) (cosb am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol) drwy wneud diwygiad i'r adran honno.

### *Adran 12 – Darpariaeth atodol ynghylch rheoliadau o dan y Ddeddf hon*

28. Mae'r adran hon yn esbonio bod pwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf i'w harfer drwy offeryn statudol (sy'n golygu bod gofynion gweithdrefnol penodol a gofynion eraill a gynhwysir yn Neddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf) ac yn pennu y bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i bob defnydd o'r pwerau i wneud rheoliadau. Mae hyn yn golygu bod unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ddatganedig gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

29. Mae adran 12 hefyd yn ei gwneud yn glir y caiff unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf roi disgresiwn i unrhyw berson. Mae angen y p#er i roi disgresiwn er mwyn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru o ran y trefniadau gweithredol sydd i'w gwneud ar gyfer gweinyddu unrhyw gyllid a ddarperir yn unol ag adran 1, er enghraifft, wrth wneud penderfyniad o ran pa un ai i osod cosb am ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol a ddarperir gan berson mewn cysylltiad â'i gais am gyllid. Rhaid i berson sy'n arfer disgresiwn o dan amgylchiadau o'r fath arfer barn resymol er mwyn penderfynu pa un ai i osod cosb ai peidio ac, os gosodir cosb, swm y gosb honno.

30. Caiff unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf hefyd wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, a gwneud darpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig, atodol, ddarfodol, drosiannol neu arbed.

### *Adran 13 – Dod i rym*

31. Mae adran 13(1) yn nodi darpariaethau'r Ddeddf a fydd yn dod i rym un diwrnod ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol.

32. Bydd unrhyw adrannau o'r Ddeddf nas crybwyllir yn is-adran (1) yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir mewn gorchymyn (neu orchmynion) cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru yn unol ag is-adran (2). Mae gan Weinidogion Cymru b#er i bennu dyddiadau cychwyn gwahanol a chânt gychwyn darpariaethau at ddibenion gwahanol neu mewn perthynas ag ardaloedd penodedig.

### *Adran 14 – Enw byr*

33. Mae'r adran hon yn datgan mai enw byr y Ddeddf hon fydd Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019.

## COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

34. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=21394&Opt=0

| ***Cyfnod*** | ***Dyddiad*** |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 16 Ebrill 2018 |
| Cyfnod 1 – Dadl | 17 Gorffennaf 2018 |
| Cyfnod 2 – Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau | 18 Hydref 2018 |
| Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau | 5 Rhagfyr 2018 |
| Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad | 12 Rhagfyr 2018 |
| Y Cydsyniad Brenhinol | 30 Ionawr 2019 |